

W410.01

Pam Silwair Byrnau Mawr?

Sut i wneud silwair – yn gryno

Y nod wrth greu silwair, boed mewn byrnau neu mewn claddfa, yw cadw'r cnwd drwy ddefnyddio bacteria asid lactig i sicrhau ei fod yn eplesu'n gyflym mewn amodau lle nad oes aer. Unwaith fo'r cnwd wedi ei dorri mae'n colli ei werth maethol gan fod resbiradaeth planhigion ac ensymau yn troi'r siwgr yn ddŵr a C02 a'r protein yn nitrogen di-brotein. Mae gwywo cyflym a silweirio yn lleihau'r colledion drwy greu asidedd yn gyflym sy'n atal bacteria annymunol a resbiradaeth pellach. Dylech amcanu am pH o 3.8 - 4.3, yn dibynnu ar y deunydd sych.

Byrnau Mawr – y manteision a'r anfanteision

Manteision:

Gall ansawdd silwair byrnau mawr fod cystal â silwair claddfa os yw'n cael ei reoli'n dda
Ceir colliannau is o ddirywio aerobig o'i gymharu gyda silwair claddfa
Dyddiadau torri amrywiol yn caniatáu'r dyddiad torri gorau posib i bob cnwd
Yn gallu targedu ansawdd i anghenion da byw gan gydbwysu'r diet yn effeithiol
Costau storio isel – gellir eu cadw bron mewn unrhyw le ond **ddim** o fewn 10m i gwrs dŵr
Risg llygredd isel – yn enwedig gyda byrnau sydd â lefel uchel o ddeunydd sych
Colli deunydd sych yn isel (<5-10%)
Gwerthu'r hyn sydd dros ben i hybu incwm, neu dargedu marchnad i'w werthu

Anfanteision:

Costau fesul uned yn uchel
Ddim yn addas i silwair gwlyb iawn
Llafur/amser wrth borthi
Risg o amrywioldeb rhwng byrnau
Yn dueddol o gael eu niweidio
Cael gwared â phlastig; cost a chydymffurfio gyda gofynion gwastraff

Silwair Claddfa

Manteision:

Cyflymder cynaeafu (ar raddfa fawr)
Cysondeb
Yn addas i ystod o Ddeunydd Sych
Opsionau porthi mecanyddol

Silwair Claddfa

Anfanteision:

Swariant cyfalaf
Colliannau deunydd sych yn uwch na byrnau (25% v 8%)
Llafur/peiriannau wrth gynaeafu a silweirio
Arwyneb yn poethi/datblygaid llwydni

AltMedi'r manteision ... awgrymiadau i fynau mawr:

Lladd gwair - ar ôl i'r gwllith godi - pheidiwch â gadael y cnwd ar y ddaear am fwy na noson

Peidiwch â gosod y torrwr neu'r rîl godi yn rhy isel er mwyn osgoi halogi gan bridd

Gwywo'n gyflym i 35% DS a rhencio yn ystodau gwastad siâp boc.

Defnyddiwch frechlyn i gynyddu cyflymder epleiad yr asid lactig a gwella ansawdd protein y silwair.

Mae cynydu sychach yn ysgafnach ond yn fwy tueddol o gael llwydni ac maent yn cael eu defnyddio'n llai effeithlon gan dda byw.

Byrnu - ar y dwysedd uchaf neu ystyriwch ei dorri (8-12% yn drymach na heb ei dorri) – arbed costau a lle. Torrwrch a rhwydo'r deunydd coesog. Mae haenen lapio rhwyd yn cyflymu'r gwaith byrnu.

Lapio - cyn gynted â phosib yn y man cadw gan eu gosod fel eu bod dros 10m i ffwrdd o gwrs dŵr.

Defnyddiwch 6 haenen lapio i sicrhau ansawdd a lleihau halogi gan listeria. Ystyriwch ddefnyddio haenen lapio sy'n wyrdd neu'n wyn i leihau gwres ar arwyneb y byrnau a lleihau dirywiad.

Trin a chadw - i osgoi niwed i'r haenen lapio ac atal dirywiad y silwair gan aer

Dylid lleihau gwaith trin silwair meillion coch – peidiwch ei gyflyru

Pentyrrwch y byrnau silwair gwlyb yn ofalus (<25% DS) ar eu pen gyda uchder o un belen yn unig; ond gellir cadw silwair >35% DS ar uchder o 3 belen.

Rhowch rwyd ar ben y domen o fynau i atal adar a chnoflod rhag eu niweidio.

Tynnwch y silwair sydd â llwydni neu silwair sydd wedi difetha, cyn porthi'r silwair i dda byw.